# Gweithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion pan fyddwch yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill sydd â chyfrifoldebau gofalu am unigolion. Mae hyn yn cynnwys cynllunio sut i weithio ar y cyd yn effeithiol a’u cefnogi i nodi a chwrdd â’u hanghenion drwy gael gafael ar adnoddau, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae'r safon hefyd yn ymdrin ag adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun, eraill ac unigolion o fewn y trefniadau gweithio mewn partneriaeth
2. cytuno ar ganlyniadau eich gwaith gyda'ch gilydd a sut y byddant yn cael eu cyflawni
3. cefnogi eraill i nodi adnoddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a fydd yn mynd i’r afael â’u dewisiadau a’u hanghenion
4. grymuso eraill i adolygu a nodi eu dewisiadau o’r opsiynau sydd ar gael
5. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a mynd i’r afael ag unrhyw fylchau mewn darpariaeth ac unrhyw heriau neu risgiau posibl i’r unigolion sy’n derbyn gofal tra bydd adnoddau, gwasanaethau a chyfleusterau’n cael eu defnyddio
6. annog a chefnogi annibyniaeth eraill i gael mynediad at adnoddau, gwasanaethau neu gyfleusterau, a’u defnyddio
7. cyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau dros unigolion tra bydd adnoddau, gwasanaethau neu gyfleusterau’n cael eu defnyddio
8. cefnogi eraill i roi adborth ar sut mae adnoddau, gwasanaethau neu gyfleusterau wedi cwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i roi adborth ar sut y llwyddwyd i gwrdd â'r canlyniadau gweithio mewn partneriaeth, gan nodi’r arferion gorau a’r newidiadau i fynd i’r afael â nhw
10. cymryd cyfrifoldeb dros adolygu a mynd i’r afael â’r newidiadau sydd eu hangen i’r trefniadau gweithio mewn partneriaeth
11. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth weithio mewn partneriaeth â'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. hawliau’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu i gael cefnogaeth yn y rôl ofalu
2. yr effaith y gall cyfrifoldebau gofalu ei chael ar iechyd a lles
3. sut mae cefnogi’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu i gymryd cyfrifoldeb dros hybu eu hiechyd, eu llesiant a'u hunanofal eu hunain
4. y mathau o adnoddau, gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael i gefnogi’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
5. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol sydd ar gael i gefnogi’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
6. sut mae nodi a chytuno ar ganlyniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a phwysigrwydd hyn
7. sut mae gweithio ag unigolion ac eraill i nodi a mynd i’r afael ag unrhyw fylchau mewn darpariaeth a’r heriau neu risgiau posibl
8. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i weithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
10. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
11. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
12. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
13. sut y gall pŵer gael ei ddefnyddio a’i gamddefnyddio ym mherthynas y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a’r unigolion sy’n derbyn gofal
14. sut mae ymateb i bryderon am wahaniaethu, gweithredu neu ddiffyg gweithredu, a allai effeithio ar unigolion neu’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
15. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
16. theorïau sy’n berthnasol i weithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth weithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â

chyfrifoldebau gofalu
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu
20. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, a sut i fynd i'r afael â hyn
21. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio mewn partneriaeth â’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Gweithio mewn partneriaeth â'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD328 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cyfrifoldebau Gofalu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |